# CYNLLUN STAMPIAU TOLL FEPIO’R DEYRNAS UNEDIG

Canllawiau Gosod Stampiau i Weithredwyr Gosod Cynhyrchion Fepio (Cam 1 – Stampiau Trosiannol)

Fersiwn: 1.1.1
31.03.2026

**CYFRINACHOL**



## HANES Y DDOGFEN

| Fersiwn | Dyddiad | Arsylwadau |
|---|---|---|
| Fersiwn 1.0 | 23.03.2026 | Datganiad cyntaf ar sail Stampiau Trosiannol |
| Fersiwn 1.1 | 30.03.2026 | Diweddaru'r rhif ffôn a'r Hawlfraint |
| Fersiwn 1.1.1 | 31.03.2026 | Diweddariadau - y cyferbyniad rhwng Stampiau Trosiannol F1 a F2. |

*Mae'r holl ddeunydd yn y tudalennau hyn, gan gynnwys y testun, y cynllun, y cyflwyniad, y logos, yr eiconau, y lluniau a'r holl waith celf arall – gan gynnwys unrhyw waith deilliadol – yn eiddo deallusol i CARTOR Security Printers Limited ("CARTOR") neu wedi'u trwyddedu i CARTOR, oni nodir yn wahanol. Maent hefyd wedi'u diogelu gan nod masnach, patent neu hawlfraint. Ni awdurdodir atgynhyrchu nac ailddefnyddio'r deunyddiau, na'u defnyddio at ddibenion masnachol, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol CARTOR ymlaen llaw. Ni cheir defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y tudalennau hyn, neu sy'n deillio ohonynt, ar gyfer datblygu, cynhyrchu na marchnata unrhyw gynnyrch neu wasanaeth, nac ar gyfer unrhyw ddiben arall, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol CARTOR ymlaen llaw.*

# TABL CYNNWYS


**1 RHAGAIR ....4**

**2 CYFLWYNIAD ....5**

2.1 Gofynion System ....5
2.2 Archebu Stampiau ....5
2.3 Storio Stampiau ....5
2.4 Egwyddorion Gosod Stampiau ....6
2.5 Stampiau trosiannol y doll fepio ....6
2.6 Gwelededdd Parthau GWASTAD y Stampiau ....7

**3 STAMPIAU SYCH FEPIO – STAMPIAU TROSIANNOL ....8**

3.1 Stampiau SYCH Fepio – Manylebau ....8
3.2 Stampiau SYCH Fepio – Parthau GWASTAD ....8
3.3 Stampiau SYCH Fepio – Gosod ....9

**4 STAMPIAU GWLYB FEPIO – STAMPIAU TROSIANNOL ....10**

4.1 Stampiau GWLYB Fepio – Manylebau ....10
4.2 Stampiau GWLYB Fepio – Parthau GWASTAD ....10
4.3 Stampiau GWLYB Fepio – Gosod ....11

**5 CYSYLLTU ....12**

# 1 Rhagair

## Pwrpas

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut mae gosod stampiau'r doll fepio yn gywir ar gynhyrchion fepio a ddaw o dan gynllun stampiau'r doll fepio (VDS) a weithredir gan yr awdurdodau refeniw yn y Deyrnas Unedig (DU). Bwriad y cynllun VDS yw monitro'r broses o gynhyrchu cynnyrch fepio domestig yn y DU a mewnforio cynnyrch fepio i'r DU, er mwyn gallu dod o hyd yn gyflym i gynhyrchion na thalwyd y doll arnynt. Rhaid gosod stampiau'r doll fepio ar bob cynnyrch fepio cyn ei ryddhau i'r farchnad.

**Sylwer**: Mae'r cymhorthion gweledol yn y canllawiau hyn yn seiliedig ar Stampiau Trosiannol sydd fymryn yn wahanol i'r Stampiau wedi'u Gwella'n Ddigidol.

## Cynulleidfa Darged

Mae'r ddogfen hon i Weithredwyr Gosod, h.y. gweithgynhyrchwyr yn y DU, gweithgynhyrchwyr tramor a cheidwaid warysau yn y DU a fydd yn gosod stampiau'r doll ar gynhyrchion fepio yn y broses weithgynhyrchu neu becynnu.

## Rolau a Chyfrifoldebau

| RÔL | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Gweithredwr Gosod | Bod yn gyfrifol am osod stamp y doll fepio ar gynnyrch fepio yn ogystal â chadw stampiau'n ddiogel a'u storio'n briodol. |
| Gweithredwr Prynu | Bod yn gyfrifol am archebu stampiau'r doll fepio. |

## Termau a Thalfyriadau

| TERM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| HRC | Mae Cod Darllenadwy i Bobl (Human Readable Code) yn god alffaniwmerig unigryw sy'n weladwy ar y stamp ac sy'n rhoi gwiriad gweledol y gall pobl ei ddarllen. |
| VDS | Mae stampiau'r doll fepio (vaping duty stamps) yn stampiau papur sy'n cyfuno nodweddion diogelwch ffisegol ag elfennau digidol ar gyfer dilysu. |

## Confensiynau

Bwriad y confensiynau canlynol yw tynnu sylw'r defnyddiwr at y cyfarwyddiadau cysylltiedig:

**Awgrym**: Awgrymiadau defnyddiol er mwyn defnyddio'r system.

**Sylwer:** Gwybodaeth berthnasol i hwyluso gweithrediad neu gydymffurfedd, a allai wella gweithrediad y system.



CYFRINACHOL

### Cael Help

Edrychwch ar y llawlyfr hwn i ddefnyddwyr yn y lle cyntaf bob tro er mwyn cael gwybod sut mae defnyddio'r system. Os na allwch ddatrys y broblem ar ôl darllen y llawlyfr hwn, cysylltwch â'r gwasanaeth cymorth os oes angen : VDS-support@cartor.com. Ffôn: +44 0800 229 4160.

### Cymhwysedd y Ddogfen

Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn i ddefnyddwyr yn ddilys ar y dyddiad a nodir ar y clawr blaen. I gael rhifynnau pellach, cysylltwch â'r gwasanaeth cymorth : VDS-support@cartor.com. Ffôn: +44 0800 229 4160.

# 2 Cyflwyniad

Wrth gyflwyno cynllun stampiau'r doll fepio sy'n cael ei weithredu yn y Deyrnas Unedig, mae proses wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn i'r Gweithredwyr Prynu allu archebu stampiau'r doll fepio ac er mwyn i'r Gweithredwyr Gosod eu gosod ar eu cynhyrchion fepio. Mae stampiau'r doll fepio (vaping duty stamps) yn stampiau papur sy'n cyfuno nodweddion diogelwch ffisegol ag elfennau digidol ar gyfer dilysu.

Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r weithdrefn er mwyn gosod stampiau'r doll fepio'n gywir ar gynhyrchion fepio.

**Nodiadau Pwysig:**

- Y Gweithredwr Gosod sy'n gyfrifol am osod stampiau'r doll fepio.
- Wrth osod stamp y doll fepio ar y cynnyrch fepio, mae'n rhaid iddo selio'r deunydd pacio fel nad oes modd agor y cynnyrch heb ddifrodi'r deunydd pacio neu'r stamp. Rhaid i Weithredwyr Gosod sicrhau bod y deunydd pacio'n bodloni'r gofyniad hwn.

## 2.1 Gofynion System

**Gosod ac ysgogi stampiau'n awtomataidd:**
Ar gyfer llinellau awtomatig, mae angen gosod gosodwr labeli awtomataidd i osod y stampiau.

## 2.2 Archebu Stampiau

Gall Gweithredwyr Prynu greu a rheoli archebion am stampiau'r doll fepio a gyhoeddir gan y cyflenwr drwy borth stampiau'r doll fepio https://vds-cartor.co.uk.

Sylwer: Cyn gynted ag y bydd stampiau'r doll yn cael eu danfon i'r Gweithredwr Gosod, daw risg y cyflenwr i ben, a'r Gweithredwr Gosod fydd yn gwbl gyfrifol am gadw'r stampiau'n ddiogel a'u storio'n briodol.

## 2.3 Storio Stampiau

Dylid diffinio ardal benodol i storio'r stampiau gan ddilyn y protocolau iechyd a diogelwch lleol yn ogystal â'r cyfarwyddiadau storio a ddisgrifir isod:

- Rhaid storio'r stampiau i ffwrdd o lygad yr haul a'u cadw yn eu deunydd pacio gwreiddiol.
- Dylai lefel gymharol y lleithder fod yn dderbyniol. Dylid awyru'r man storio os caiff y stampiau eu storio am gyfnod hir. 50% yw'r lleithder cymharol gorau posibl a argymhellir, ond derbynnir yr amrediad 40% i 60%.

- 22°C yw'r tymheredd gorau a argymhellir, ond derbynnir 20°C i 24°C. Dylid awyru'r man storio os caiff y stampiau eu storio am gyfnod estynedig.
- Rhaid peidio â chael lleithder na marciau dŵr yn gollwng ar y nenfwd, y waliau na'r slabiau yn y man storio.
- Rhaid peidio â chael plâu yn y man storio.

## 2.4 Egwyddorion Gosod Stampiau

Cadwch at yr egwyddorion canlynol i osod stampiau:

- Dylid gosod y stamp ar bob uned manwerthu unigol.
- Rhaid gosod stampiau'r doll fepio ar ran allanol y deunydd pacio manwerthu terfynol. Gallai hyn fod naill ai'r:
  - bocs
  - potel (os yw'n cael ei gwerthu neu ei chyflenwi heb focs allanol).
- Dim ond un stamp dylid ei roi ar bob cynnyrch. Ni ddylai unrhyw gynnyrch gael mwy nag un stamp.
- Dim ond unwaith dylid defnyddio'r stamp.
- Rhaid i'r amgylchedd lle mae'r stamp yn cael ei osod fod yn sych ac yn oer (nid yn llaith nac yn boeth).

Ni chaniateir:

- Ni chaniateir gosod dau stamp.
- Ni chaniateir argraffu ar y stampiau.
- Ni chaniateir ailddefnyddio stamp.

## 2.5 Stampiau trosiannol y doll fepio

Dim ond tan 30 Tachwedd 2026 y gellir prynu stampiau trosiannol y doll fepio. Mae'r stampiau hyn yn cynnwys yr holl nodweddion diogelwch ffisegol ac maent yn cael eu cynhyrchu yn yr un dimensiynau mewn fformatau gwlyb a sych, ond nid ydynt yn cynnwys y nodwedd ddigidol ac nid oes angen eu sganio.

Mae stampiau trosiannol y doll fepio wedi'u cynllunio i helpu busnesau i reoli cynnyrch fepio cyn cyflwyno'r Ddyletswydd Cynhyrchion Fepio. Eu pwrpas yw caniatáu i weithgynhyrchwyr roi stampiau'r doll ar gynnyrch cyn i'r stampiau digidol diogel fod ar gael, os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Ni ddylid gosod stampiau trosiannol y doll fepio ar gynnyrch fepio o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

O 1 Hydref 2026 ymlaen, gellir mewnforio cynnyrch fepio sydd â stamp trosiannol y doll fepio arnynt i'r DU neu eu rhyddhau o drefniant atal tollau.

Cyn y dyddiad hwn, ni ddylai unrhyw gynnyrch fepio, boed yn cynnwys stamp trosiannol y doll fepio neu stamp y doll fepio gyda'r nodwedd ddigidol, gael eu rhyddhau i'w cylchredeg. Dylid cadw cynnyrch feps wedi'u stampio wedi'u gohirio ar gyfer tollau.

Ni fydd modd dychwelyd stampiau trosiannol i'r cyflenwr na chael ad-daliad amdanynt, felly archebwch dim ond faint byddwch chi eu hangen. O 1 Hydref 2026 ymlaen, rhaid i bob cynnyrch fepio sy'n cael ei ryddhau ar y farchnad fod â stamp toll fepio arno.

Bydd stampiau toll fepio gyda'r nodwedd ddigidol ar gael o 1 Medi 2026 ymlaen. Mae modd dychwelyd stampiau treth digidol diangen i'r cyflenwr. Bydd rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar gael cyn bo hir.



CYFRINACHOL





## 2.6 Gweleded Parthau GWASTAD y Stampiau

**<u>Nodyn pwysig</u>**: Mae'n bwysig sicrhau bod parthau gwastad y stamp i'w gweld yn glir ac nad ydynt yn cael eu rhwystro wrth osod y stamp ar arwyneb cynnyrch.

**Beth yw'r parth gwastad?**
Mae'r parthau gwastad yn cynnwys y data diogelwch. Mae gan bob stamp barthau gwastad y gellir eu hadnabod, fel yr amlinellir yn y tabl isod. I gael gweithdrefnau manwl ar osod pob stamp, edrychwch ar y penodau perthnasol sy'n dilyn.

### Rheolau:

- Rhaid sicrhau bod y parthau gwastad i'w gweld yn glir ac nad ydynt yn cael eu rhwystro ar y cynnyrch.
- Rhaid i'r parthau gwastad beidio â chael eu newid gan rwygiadau/crafiadau/plygiadau/crychiadau.
- Rhaid gosod y parth gwastad yn ofalus iawn ac yn fanwl gywir drwy ddilyn cyfarwyddiadau'r canllawiau hyn.


| MATH O STAMP | PARTHAU GWASTAD |
|---|---|
| Stamp y doll fepio (SYCH) |     |
| Stamp y doll fepio (GWLYB) |     |



CYFRINACHOL

# 3 Stampiau SYCH Fepio – Stampiau Trosiannol


## 3.1 Stampiau SYCH Fepio – Manylebau




*Ffigur 1 : Stampiau SYCH Fepio - manylebau*

| STAMPIAU SYCH FEPIO – MANYLEBAU | |
|---|---|
| Papur | Papur diogel SYCH |
| Siâp y label | Petryal |
| Hyd y label | 42mm |
| Uchder y label | 18 mm |
| Uchafswm nifer y labeli fesul pecyn/rîl | 108,000 / pecyn |
| Fformat y pecyn | 108,000 o stampiau wedi'u torri ymlaen llaw mewn hambyrddau |
| Fformat y rîl | Amh. |

## 3.2 Stampiau SYCH Fepio – Parthau GWASTAD




*Ffigur 2 : Stampiau SYCH Fepio – Parthau GWASTAD*

**<u>Dylech osgoi crychiadau, crafiadau, rhwygiadau, plygiadau neu droadau</u>** yn ardal y parthau GWASTAD.



CYFRINACHOL

# 3.3 Stampiau SYCH Fepio – Gosod

---

Nodiadau Pwysig:

- Gwnewch yn siŵr bod yr ardal gosod yn hollol sych cyn dechrau gosod y stamp.
- Er mwyn osgoi problemau gyda stampiau SYCH yn plicio i ffwrdd, argymhellir caniatáu digon o lud wrth osod y stampiau.

---




*Ffigur 3 : Samplau*

Bydd stamp y doll fepio yn cael ei osod ar agoriad y cynnyrch i orchuddio'r sêl. Rhaid i'r plyg **beidio ag amharu** ar y parth GWASTAD.

Mae hefyd angen i'r Gweithredwyr Gosod ddefnyddio eu dulliau eu hunain i selio pen arall y deunydd pacio.

### 3.3.1 GOSOD YN UNIONGYRCHOL

Ar gyfer cynhyrchion fepio sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi heb focs allanol, dilynwch y dull gosod stampiau a nodir yma.





*Ffigur 4: Samplau - gosod yn uniongyrchol*

Bydd y stamp yn cael ei osod ar agoriad y cynnyrch i orchuddio'r sêl. Dylid rhoi'r parth GWASTAD **ar arwyneb gwastad y cynnyrch**.

# 4 Stampiau GWLYB Fepio – Stampiau Trosiannol


## 4.1 Stampiau GWLYB Fepio – Manylebau




*Ffigur 5 : Stampiau GWLYB Fepio - manylebau*

| STAMPIAU GWLYB FEPIO – MANYLEBAU | |
|---|---|
| Papur | Papur diogel GWLYB |
| Siâp y label | Petryal |
| Lled y rîl | 46 mm |
| Hyd y label | 42mm |
| Uchder y label | 18 mm |
| Toriadau diogelwch nad oes modd amharu arnynt | Oes |
| Uchafswm nifer y labeli fesul rîl | 20,000 fesul rîl |
| Diamedr craidd mewnol | 76.2mm (3 modfedd) |
| Math o fandrel | Cardfwrdd |
| Cyfeiriad labeli adlynol yn y rîl | Ar draws |

## 4.2 Stampiau GWLYB Fepio – Parthau GWASTAD




*Ffigur 6 : Stampiau GWLYB Fepio – Parthau GWASTAD*

**Dylech osgoi crychiadau, crafiadau, rhwygiadau, plygiadau neu droadau** yn ardal y parthau GWASTAD.

# 4.3 Stampiau GWLYB Fepio – Gosod

Nodyn Pwysig: Gwnewch yn siŵr bod yr ardal gosod yn hollol sych cyn dechrau gosod y stamp.




*Ffigur 7: Samplau*

Bydd stamp y doll fepio yn cael ei osod ar agoriad y cynnyrch i orchuddio'r sêl. Rhaid i'r plyg **beidio ag amharu** ar y parth GWASTAD.

Mae hefyd angen i'r Gweithredwyr Gosod ddefnyddio eu dulliau eu hunain i selio pen arall y deunydd pacio.

## 4.3.1 GOSOD YN UNIONGYRCHOL

Ar gyfer cynhyrchion fepio sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi heb focs allanol, dilynwch y dull gosod stampiau a nodir yma.




*Ffigur 8: Samplau - gosod yn uniongyrchol*

Bydd y stamp yn cael ei osod ar agoriad y cynnyrch i orchuddio'r sêl. Dylid rhoi'r parthau GWASTAD **ar arwyneb gwastad y cynnyrch**.



CYFRINACHOL

# 5 Cysylltu

| Swyddfeydd CARTOR | |
|---|---|
| **Cartor Security Printers Ltd.**<br>Valiant Way,<br>i54 Business Park,<br>Wolverhampton,<br>WV9 5GB,<br>Y Deyrnas Unedig | Ffôn: +44 0800 229 4160<br>E-bost: VDS-support@cartor.com.<br>Gwefan: https://vds-cartor.co.uk |



CYFRINACHOL